



**Adroddiad Blynyddol**  
y  
**Bwrdd Monitro Annibynnol**  
yn  
**CEM Berwyn**

ar gyfer y Flwyddyn adrodd  
1 Mawrth 2018 i 28 Chwefror 2019

Cyhoeddwyd  
Gorffennaf 2019



*Monitro tegwch a pharch i bobl yn y ddalfa*

**Adrannau Cyflwyniadol**

<b>Adran</b>	<b>Pwnc</b>	<b>Tudalen</b>
<b>1</b>	<b>Rôl Statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol (y Bwrdd)</b>	<b>3</b>
<b>2</b>	<b>Cyflwyniad / Crynodeb Gweithredol</b>	<b>4</b>
<b>3</b>	<b>Disgrifiad o'r Sefydliad</b>	<b>6</b>

**Adrannau Tystiolaeth**

<b>4</b>	<b>Diogelwch</b>	<b>7</b>
<b>5</b>	<b>Cydraddoldeb a Thegwch</b>	<b>8</b>
<b>6</b>	<b>Uned Ymwahanu / Gofalu a Gwahanu</b>	<b>9</b>
<b>7</b>	<b>Llety (yn cynnwys cyfathrebu)</b>	<b>10</b>
<b>8</b>	<b>Gofal iechyd (yn cynnwys iechyd meddwl a gofal cymdeithasol)</b>	<b>11</b>
<b>9</b>	<b>Addysg a Gweithgareddau Eraill</b>	<b>12</b>
<b>10</b>	<b>Gwaith, Hyfforddiant Galwedigaethol a Chyflogaeth</b>	<b>13</b>
<b>11</b>	<b>Paratoi ar gyfer Adsefydlu</b>	<b>14</b>

<b>19</b>	<b>Gwaith y Bwrdd</b>	<b>16</b>
<b>20</b>	<b>Ceisiadau i'r Bwrdd</b>	<b>17</b>

### 1 RÔL STATUDOL Y BWRDD

---

Mae Deddf Carchardai 1952 yn ei gwneud yn ofynnol i bob carchar gael ei fonitro gan Fwrdd Annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o aelodau'r gymuned y mae'r carchar neu'r ganolfan ynddi.

Mae gan y bwrdd y cyfrifoldeb penodol i:

- (1) fodloni ei hun ynghylch triniaeth drugarog a theg y rhai hynny a gedwir yn ei gadwraeth o fewn ei garchar ac ystod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau a pha mor ddigonol yw'r rhaglenni hynny.
- (2) rhoi gwybod yn syth i'r Ysgrifennydd Gwladol neu i unrhyw swyddog y mae wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n barnu'n briodol, am unrhyw bryderon sydd ganddo.
- (3) **adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gystal y mae'r carchar wedi cwrdd â'r safonau a'r gofynion a roddwyd arno a pha effaith y mae'r rhain wedi'i chael ar y rhai yn ei gadwraeth.**

Fel bod modd i'r Bwrdd ymgymryd â'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor ac at bob rhan o'r carchar a hefyd at gofnodion y carchar ac eithrio cofnodion meddygol.

## CYFLWYNIAD

Yr adroddiad hwn yw canfyddiadau'r Bwrdd Monitro Annibynnol ar Garchar Ei Mawrhydi (CEM) Berwyn am y cyfnod 1 Mawrth 2018 i 28 Chwefror 2019. Daw tystiolaeth y Bwrdd o arsylwadau a wnaed ar ymweliadau, craffu cofnodion a data, cyswllt â'r carcharorion, arolygon a cheisiadau i'r Bwrdd.

Bydd yr adroddiad ar ffurf adrodd 'trwy eithriad'.

## 2 CRYNODEB GWEITHREDOL

---

### Prif ddyfarniad cyffredinol

---

Prif ddyfarniad cyffredinol y bwrdd mewn perthynas â gweithrediad effeithiol ac effeithlon CEM Berwyn yw bod y gwaith yn mynd rhagddo o hyd a'i fod yn esblygu'n barhaus. Agorwyd y sefydliad gydag ethos wedi'i seilio'n benodol ar adfer ac adsefydlu, gyda sawl dull gweithredu newydd a gwahanol. Mae rhai wedi gweithio'n dda, nid yw eraill wedi gweithio gystal, a bu angen gwneud newidiadau ac addasiadau ar sail tystiolaeth, gydag amser. Adeg ysgrifennu hwn, ein hail Adroddiad Blynnyddol, mae llywodraethwr rhif 1 parhaol newydd wedi cychwyn yn ei swydd, a'i dasg ef yw symud y sefydliad yn ei flaen gan ymateb i sialensiau'r dyfodol.

### Prif ddyfarniadau

---

1. Mae'r bwrdd yn cydnabod bod CEM Berwyn wedi bod trwy nifer o newidiadau o ran ei arweinyddiaeth trwy gydol y flwyddyn adrodd hon. Hoffai'r bwrdd ganmol y rhai sydd wedi ymgymryd â'r rôl hwn am barhau i sicrhau cynnydd a gwelliant yn ystod cyfnodau o ansicrwydd. Mae'r unigolion hynny sydd wedi ymgymryd â'r rôl y Llywodraethwr yn barhaol, dros dro neu trwy ddirprwyo dros dro, wedi gwneud hynny gydag ymrwymiad parhaus i'r ethos y seiliwyd y carchar arno. Yn ogystal, maent wedi cydnabod yr angen i fireinio rhai dulliau gweithredu er mwyn creu amgylchedd sy'n pennu safonau a disgwyliadau clir ar gyfer staff a charcharorion. Trwy gydol y newidiadau hyn, mae'r bwrdd wedi croesawu ymrwymiad y Llywodraethwyr i barhau i'w hysbysu. Mae'r bwrdd wedi monitro'r newidiadau hyn a bydd yn parhau i adrodd yn ôl am yr effaith ar garcharorion a staff. Edrychwn ymlaen at barhau ein perthynas waith gyda'r Llywodraethwr newydd.

2. Mae argaeledd parhaus sylweddau anghyfreithlon yn CEM Berwyn yn parhau i fod yn destun pryder. Yn aml, bydd carcharorion yn mynd i ddyledion sylweddol i unigolion o ganlyniad, gan arwain at ymddygiad treisgar neu ymosodol ganddynt yn erbyn staff a charcharorion eraill, neu byddant yn achosi difrod mawr i eiddo'r carchar er mwyn hwyluso eu symud i'r uned ymwahanu (gweler hefyd dan Diogelwch 4.1).

3. O ystyried bod CEM Berwyn yn sefydliad newydd, mae'r ffaith bod diffyg ystafelloedd er mwyn cynnal cyfarfodydd a chyfweliadau gyda charcharorion yn destun pryder difrifol. Mae'n ymddangos bod y cyfleusterau hyn yn y cynlluniau gwreiddiol, ond na chawsant eu cyflawni am resymau ariannol yn ôl ein dealltwriaeth ni. Er bod hyn eisoes yn destun pryder difrifol, bydd yn mynd yn fwyfwy difrifol wrth i'r sefydliad symud tuag at sefyllfa o fod yn llawn. Mae hyn yn mynd law yn llaw â'r penderfyniad bod 70% o'r ystafelloedd i garcharorion yn rhai dwbl a 30% ohonynt yn rhai sengl, sy'n her i'w reoli, o ystyried gofynion yr asesiad risg rhannu cell (CSRA) a chyfansoddiad y boblogaeth amrywiol hon. Gall y ffigwr sy'n cyfeirio at 70% o ystafelloedd dwbl a 30% o ystafelloedd sengl fod yn gamarweiniol. Yn fras, mae gan y sefydliad 1240 o ystafelloedd. 70% o 1240 yw 867 o ystafelloedd, sy'n dal 1734 o garcharorion, a 30% o 1240 yw 372 o ystafelloedd sy'n dal 372 o garcharorion.  $1734 + 372 = 2106$ , sef capasiti y carchar. Mae

hyn yn golygu y bydd 82.3% o garcharorion mewn ystafelloedd dwbl, a dim ond 17.7% ohonynt fydd mewn ystafelloedd sengl pan fydd y carchar yn llawn.

## **Prif Feysydd i'w Datblygu**

---

### **I'R GWEINIDOG**

Mae'r bwrdd yn amlygu'r ffaith y ceir diffyg cyfleusterau o ran ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd cyfweld yn y sefydliad newydd hwn. Mae cyfluniad 70% o ystafelloedd dwbl a 30% o ystafelloedd sengl yn heriol i'w reoli, o ystyried gofynion CSRA a chyfansoddiad y boblogaeth amrywiol hon. Gall y ffigwr o 70% o ystafelloedd dwbl a 30% o ystafelloedd sengl fod yn gamarweiniol pan ystyrir hyn o safbwynt nifer y carcharorion. Pan fo'r carchar yn llawn, mae hyn yn golygu y bydd 82.3% o'r carcharorion (1734) mewn ystafelloedd dwbl a dim ond 17.7% (372) fydd mewn ystafelloedd sengl. (Gweler y prif ddyfarniadau hefyd).

### **I'R GWASANAETH CARCHARDAI**

- Yr angen am gyfnod o atgyfnerthu o ystyried y newidiadau mewn arweinyddiaeth a chyfeiriad y sefydliad wrth iddo symud i'w gyfnod datblygu nesaf.
- Yr angen i ystyried gweithgarwch pellach i ddynodi cymunedau arbenigol, i ddelio ag anghenion a nodwyd yn benodol, er enghraifft nifer gynyddol y carcharorion sy'n penderfynu arwahanu eu hunain.
- Yr angen i fod yn ymwybodol o'r sialensiau gyda sefydliad o faint CEM Berwyn, gyda diffyg ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd cyfweld (gweler y prif ddyfarniadau).
- Yr angen i ddatrys y problemau difrifol gyda'r diffygion o ran y paent a'r systemau boeler aneffeithiol, y dylid rhoi sylw iddynt ar fyrder, o ystyried y ffaith y bydd peidio rhoi sylw iddynt yn arwain at ganlyniadau difrifol o ran capasiti a gweithrediad y sefydliad. (Gweler Adran 7).

### **I'R LLYWODRAETHWR**

Er mwyn sicrhau bod CEM Berwyn yn tyfu ac yn gwella, mae angen sicrhau bod systemau a pholisiau yn gyson a bod carcharorion a staff yn eu deall.

- Yr angen i ddatrys materion a godir gan y carcharorion pan geir y cyfle cyntaf i wneud hynny, yn hytrach na chaniatáu iddynt waethygu.
- Nodwyd y byddai wedi bod modd delio â nifer o faterion a ddatblygodd yn gwynion ffurfiol, ar lefel gymunedol, ac y dylid fod wedi gwneud hynny.
- Cyfanswm uchel y ceisiadau ar Unilink a'r ffaith na sylweddolwyd yn llawn y gweithgarwch rheoli a fyddai'n ofynnol er mwyn delio â nhw yn effeithiol. Bellach, mae'r ffocws ar ansawdd a'r angen i ddatrys materion yn effeithiol y tro cyntaf y gofynnir. Cyfanswm y ceisiadau Unilink ym mis Chwefror oedd 21,780 (a oedd yn fis byr).
- Mae cwynion (h.y. Cwynion 1 a Chwynion 1a) yn broblem yn y sefydliad. Pe byddai dynion yn cael eu hysbysu o'r cynnydd, gallai hyn leihau rhwystredigaeth, gan gynnwys Cwynion 1a ychwanegol a cheisiadau i'r Bwrdd a'r caplandy.

### **I'R DARPARWR (Gofal Iechyd ac Addysg)**

**Gofal Iechyd** – Gweler Adran 8

**Addysg** – Gweler Adran 9

## **3 DISGRIFIAD O'R SEFYDLIAD**

---

3.1 Leolir CEM Berwyn ar Ystad Ddiwydiannol Wrecsam yng Ngogledd Cymru. Mae'n garchar adsefydlu a hyfforddi categori C ac mae'n gallu dal 2106 o garcharorion. Mae'r carchar yn cynnwys tri phrif dŷ: Alwen, Bala a Ceiriog. Rhannwyd pob tŷ yn wyth cymuned sy'n gallu dal 88 o garcharorion. Mae'r lle ym mhob cymuned yn gyfuniad o ystafelloedd dwbl a sengl. Ar draws y carchar, mae 30% o'r ystafelloedd yn ystafelloedd sengl ac mae 70% ohonynt yn ystafelloedd dwbl. Yn gyfochr â'r prif gymunedau, mae gan y carchar uned gofal a chymorth (Ogwen), sy'n gallu dal 21 o ddynion.

## B Adrannau tystiolaeth 4 – 11

### 4 DIOGELWCH

---

4.1 Nodir bod defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn ffactor allweddol mewn achosion pan welir carcharorion yn ymosod ar staff, carcharorion yn ymosod ar garcharorion ac mewn digwyddiadau ar uchder. Er mwyn cynorthwyo i oresgyn hyn, mae'r bwrdd yn ymwybodol o nifer o gamau yr hoffai eu hamlygu fel arferion da. Mae hyn yn cynnwys penodi pennaeth strategaeth cyffuriau sydd wedi goruchwyllo gweithrediad amrediad o fentrau sy'n lleihau argaeledd sylweddau anghyfreithlon yn sylweddol. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys:

- Profi'r holl eitemau sy'n cyrraedd yn y post am bresenoldeb sylweddau anghyfreithlon gan ddefnyddio peiriant arbennig. Caiff unrhyw eitem sy'n profi'n bositif ei hatafaelu a'i dinistrio (bydd y weithdrefn hon yn berthnasol i lyfrau a roddir hefyd).
- Gweithredu polisi llym ynghylch parseli a anfonir i'r carchar, y mae'n rhaid iddynt, gyda rhai eithriadau prin, fod yn dod o ffynhonnell awdurdodedig.
- Cyflwyno tîm chwilio penodol (DST) er mwyn cynorthwyo mentrau ymhellach ac a fydd yn gallu gweithredu'n effeithlon o fewn amserlenni tynn.

4.2 Caiff y cyfleuster gorfodol er mwyn profi am gyffuriau (MDT) yn y carchar ei staffio'n gyson a'i orfodi yn drylwyr.

4.3 Bu 182 o ymosodiadau ar ddynion a 233 o ymosodiadau ar staff rhwng mis Ebrill 2018 a mis Chwefror 2019. Mae nifer yr ymosodiadau yn parhau i fod yn destun pryder i'r bwrdd.

4.4 Gwneir gwaith rhagorol mewn partneriaeth yn y carchar er mwyn cynorthwyo diogelwch carcharorion. Mae hyn yn cynnwys perthynas ragorol gyda heddlu Gogledd Cymru, sy'n cynnal ymchwiliadau i unrhyw weithredoedd troseddol honedig yn y carchar sy'n cael eu cyfeirio gan garcharorion neu staff. Yn ogystal, maent yn cynorthwyo gwaith a arweinir gan wybodaeth er mwyn lleihau argaeledd sylweddau anghyfreithlon.

4.5 Cydnabyddir hefyd bod y darparwr iechyd yn gwneud gwaith gwych wrth gynnig gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau sy'n canolbwyntio ar adfer.

4.6 Yn ogystal, gwnaethpwyd newidiadau yn y coleg er mwyn cynorthwyo'r gweithgarwch i leihau argaeledd sylweddau anghyfreithlon ymhellach.

4.7 Mae cynnydd yn nifer y ceisiadau i'r Bwrdd ynghylch pryderon staff/carcharorion sy'n ymwneud â bwlio yn destun pryder. Yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf, cawsom 62 o geisiadau (35 gan un unigolyn), felly mae'r cynnydd i 92 (gan 72 unigolyn) yn sylweddol, er y dylid cydnabod bod maint poblogaeth y carchar wedi tyfu'n sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd hefyd.

4.8 Trist nodi y bu tair marwolaeth yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn adrodd. Roedd un o ganlyniad i achosion naturiol, roedd un o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau ac rydym yn aros i glywed achos y farwolaeth olaf o hyd. Bydd PPO (Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth), yr heddlu a thîm y Gwasanaeth Carchardai yn cynnal ymchwiliad annibynnol llawn i bob marwolaeth yn y ddalfa. Roedd y bwrdd yn teimlo y bu'r cymorth a gynigiwyd i staff, carcharorion a theuluoedd yr unigolion yr effeithiwyd arnynt gan y marwolaethau trasig hyn, yn rhagorol. Mae'r bwrdd yn estyn ei gydymdeimlad i deulu a ffrindiau'r tri gŵr a fu farw.

## 5 CYDRADDOLDEB A THEGWCH

---

5.1 Mae gan y bwrdd bryderon o hyd ynghylch diffyg cynrychiolaeth lawn y tri thŷ ar draws y carchar yn y Tîm Gweithredu Amrywiaeth a Chydraddoldeb (DEAT). Mae DEAT yn cynnig fforwm i garcharorion fynegi unrhyw bryderon ynghylch amrywiaeth a chydraddoldeb. Mae diffyg cynrychiolaeth lawn yn golygu nad yw pob carcharor yn y carchar yn cael cynnig llais mewn perthynas â'r materion hyn.

5.2 Mae'r bwrdd yn cydnabod y gwaith a gyflawnwyd gan y carchar gyda charcharorion sy'n nodi eu bod yn perthyn i grŵp Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT). Fodd bynnag, mae'r bwrdd yn parhau i deimlo'n bryderus ynghylch amharodrydd carcharorion i nodi eu bod yn unigolion GRT. Ar hyn o bryd, mae 1% o boblogaeth y carchar yn nodi eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig Gwyn.

5.3 Mae'r bwrdd yn pryderu ynghylch niferoedd isel y carcharorion Cymraeg yn y sefydliad ar hyn o bryd, a'r manteision posibl sy'n cael eu colli oherwydd hyn. Mae'n hysbys bod cael eu lleoli ger eu cartref yn sicrhau y gall carcharorion gynnal perthnasoedd gydag aelodau teuluol, yn enwedig plant.

5.4 Mae system y ffurflen adrodd am ddiwyddiad gwahaniaethu (DIRF) yn cynnig cyfle i garcharorion adrodd am unrhyw wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth y maent yn ei brofi. Mae'r bwrdd yn teimlo'n fodlon bod y carchar yn bodloni'r gofynion i ymateb i'r rhain mewn ffordd deg ac amserol, trwy samplu'r ymatebion y mae'r carchar yn eu rhoi i'r cwynion hyn.

5.5 Mae system DIRF wedi nodi mai'r rheswm mwyaf cyffredin dros adrodd am wahaniaethu oedd hiliaeth. Mae'r bwrdd yn teimlo'n fodlon y rheolwyd y cwynion hyn mewn ffordd briodol. Fodd bynnag, mae'r sefydliad yn parhau i adolygu a gwella systemau.

5.6 Un maes arfer da a nodwyd gan y bwrdd yw'r system monitro ansawdd rhwng CEM Berwyn a CEM Lerpwl, a weithredwyd er mwyn adolygu ansawdd yr ymatebion i DIRFs.

5.7 Mae'r bwrdd yn cydnabod bod y carchar yn parhau i ystyried effaith yr holl bolisiau a gweithdrefnau ar garcharorion nad yw'r nodweddion o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol iddynt. Yr enghraifft fwyaf diweddar o hyn yw asesiad o effaith y cynllun gwobrau a chyfrifoldeb ar gydraddoldeb.

5.8 Mae angen gwneud gwaith i annog ystod fwy amrywiol o unigolion i ddod i weithio yn CEM Berwyn. Mae'r carcharorion yn y carchar yn dod o amrediad o gefndiroedd a byddai cael esiamplau a mentoriaid cadarnhaol y gallant uniaethu â nhw yn gwella eu proses adsefydlu.

5.9 Mae'r bwrdd yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i recriwtio aelodau o grwpiau lleiafrifol. Mae hyn yn cynnwys unigolion o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig (BAME) ac unigolion nad Saesneg yw eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes gan y bwrdd unrhyw gynrychiolwyr o'r gymuned BAME ac mae ganddo un aelod nad Saesneg yw eu mamiaith (Cymraeg yn yr achos hwn).



## 6 UNED YMWAHANU/GOFALU A GWAHANU

---

6.1 Hoffai aelodau'r bwrdd gydnabod yr ymagwedd broffesiynol a gofalgar y maent wedi bod yn dyst iddi ymhlith staff wrth iddynt weithio gyda charcharorion yn yr uned gofal a gwahanu.

6.2 Ethos y sefydliad yw cadw carcharorion am yr amser lleiaf ag y bo modd yn CASU. Fodd bynnag, ceir achlysuron, gan gynnwys rhai gyda charcharorion sydd ar ACCT, pan na fu hyn yn bosibl. Mae'r bwrdd yn ymwybodol o'r sefyllfaoedd hyn ac mae'n eu monitro trwy fynychu byrddau adolygu R45. Mae hyn yn berthnasol hefyd i'r cyfnodau aros am dros 42 diwrnod yn CASU, gyda charcharorion sy'n cael eu hail-gategoreiddio i B ac y maent yn aros am le mewn sefydliad categori B sy'n gallu eu cymryd.

6.3 Mae aelodau'r bwrdd sydd wedi mynychu adolygiadau yn yr uned gofal a gwahanu wedi nodi'r gwahaniaeth o ran gwaith paratoi rhwng y llywodraethwyr sy'n cadeirio'r adolygiadau. Mewn rhai achosion, gall y diffyg gwybodaeth gefndirol arwain at garcharor yn gorfod aildatgan y rhesymau dros y ffaith eu bod yn yr uned. Yn aml, gall hyn beri dryswch a rhwystredigaeth i'r carcharor, a gallant ymddieithrio. Yna, bydd y diffyg gwybodaeth am honiadau a wneir gan y carcharor ynghylch eu hymddygiad troseddu neu eu hymddygiad yn y carchar beri oedi pellach i'r sefyllfa.

6.4 Mae'r bwrdd yn cydnabod bod carcharorion yn parhau i ddefnyddio'r uned gofal a gwahanu fel ffordd o osgoi dyledion y maent wedi'u cronni wrth fod yn breswlydd mewn cymuned. Yn aml, bydd carcharorion yn cyflawni troseddau sy'n golygu eu bod yn cael eu tynnu o'r gymuned ac yn cael eu rhoi yn yr uned gofal a gwahanu am y rheswm hwn. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar staffio ac mae'n amharu ar batrymau dyddiol carcharorion eraill. Mae angen gweithredu ymyriadau pellach wedi'u seilio ar dystiolaeth er mwyn atal y cyfle i Gronni dyled. Nid yn unig y byddai'r rhain yn cynnwys ymyriadau er mwyn atal cyffuriau rhag dod i mewn i'r sefydliad, ond hefyd, cynnydd yn y gweithgareddau ystyrion a gweithgarwch adnabod yn gynnar ac ymyrraeth ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o Gronni dyledion.

## 7 LLETY A CHYFATHREBU

---

7.1 Mae dibynadwyedd system wresogi yr adeiladau yn destun pryder. Methodd y system ym mis Mawrth 2018 a mis Chwefror 2019, gan arwain at ddiffyg gwres a dŵr poeth i'r carcharorion. Yn ffodus, rheolwyd y sefyllfa yn dda gan staff y carchar a gosodwyd system wrth gefn ym mis Chwefror 2019 rhag ofn y bydd y sefyllfa yn codi eto. Dylid nodi bod y system wrth gefn hon yn berthnasol i'r tri bloc carcharorion yn unig, nid y lleoliadau sy'n weddill ar y safle. Fodd bynnag, mae hyn yn peri pryder gan bod yr adeilad yn gymharol newydd ac mae'r potensial am afreolaeth y gall diffyg gwres a dŵr poeth ei achosi, yn uchel.

7.2 Byddai'r bwrdd yn dymuno cael sicrwydd y caiff y materion ehangach sy'n ymwneud â diffygion paent difrifol a systemau boeler aneffeithiol eu datrys yn y dyfodol agos. Byddai methu datrys hyn neu oedi'r gwaith yn arwain at sialsensiau mawr o ran capasiti a gweithrediad y sefydliad.

7.3 O ystyried y ffaith bod y sefydliad yn un newydd, mae'n siomedig nodi bod y plastr ar y waliau wedi cael ei baratoi a'i osod mewn ffordd anghywir. Mae hyn wedi arwain at ddiffygion cudd o ran y paent, sydd wedi arwain at symiau gormodol o baent yn pilio i ffwrdd yn ystafelloedd carcharorion. Gwnaethpwyd rhywfaint o waith adferol. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn broblem i'w datrys rhwng HMPPS Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r contractwr. Y canlyniadau yw nad yw'r cyflwr ar gyfer y carcharorion yn cyfateb â'r safon y byddem yn ei disgwyl.

7.4 Yn yr un modd, bu problemau gyda'r boeleri, a bu dau achos pan gollwyd y gwres a'r dŵr poeth yn gyfan gwbl ers i'r sefydliad agor ym mis Chwefror 2017. Fodd bynnag, ar y ddau achlysur, mae'r sefydliad wedi darparu datrysiad dros dro nes caiff y mater ei ddatrys. Ar yr achlysur diwethaf ym mis Chwefror 2019, gweithredwyd datrysiad lled-barhaol er mwyn atal unrhyw ddigwyddiadau pellach.

7.5 Bydd y ffaith y rhennir celloedd yn cael ei godi'n rheolaidd fel mater gan y carcharorion, gyda staff, ymwelwyr, aelodau'r bwrdd ar rota ac aelodau'r bwrdd trwy geisiadau. Mae hyn hefyd yn cynnwys carcharorion sy'n cael eu dwyn i lawr i gyfundrefn sylfaenol gan nad ydynt yn fodlon cytuno rhannu, gan gyflwyno ceisiadau am hyn. Fodd bynnag, ni all y sefydliad roi rhywbeth nad oes ganddo i'w roi. Mae dynodi'r carchar yn garchar lle y mae 70% o'r ystafelloedd yn rhai dwbl a 30% o'r ystafelloedd yn rhai sengl yn creu sialsensiau sylweddol i'r carcharorion a'r staff – yn enwedig o ystyried nifer uchel y carcharorion nad ydynt yn gallu rhannu oherwydd gofynion CSRA, cyflyrau meddygol a materion unigol eraill amrywiol yn y sefydliad categori C hwn.

## **8 GOFAL IECHYD (yn cynnwys iechyd meddwl a gofal cymdeithasol)**

---

8.1 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gofal iechyd yn CEM Berwyn.

8.2 Mae'r bwrdd yn cydnabod bod y materion y mae'r polisi meddyginiaeth wedi'u cael, yn enwedig yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf, bellach wedi tawelu. Dylid cydnabod fodd bynnag bod nifer o garcharorion wedi gorfod manteisio ar yr uned gofal a chymorth o hyd yn ystod y cyfnod adrodd, o ganlyniad i'r gofid meddyliol sydd ynghlwm â'r polisi.

8.2 Mae hyn yn ymwneud â nifer fach o garcharorion yr oeddent yn hynod o anystywallt mewn lleoliad arferol ac yn absenoldeb uned i gleifion mewnol, penderfynwyd eu lleoli yn yr uned gofal a gwahanu. Yn ystod eu cyfnod yn yr uned, cawsant ymweliadau dyddiol gan y meddyg, cymorth gan y tîm camddefnyddio sylweddau, cymorth iechyd meddwl ac apwyntiadau gyda'r seiciatrydd pan oedd hynny'n briodol.

8.4 Cydnabyddir mai un o'r rhesymau dros y ffaith bod y carcharorion yn CEM Berwyn wedi derbyn y polisi meddyginiaeth fwyfwy, yw'r ffaith y cyflwynwyd mentoriaid cymheiriaid iechyd a lles. Mae'r model hwn wedi cynnig cyfle i garcharorion drafod y penderfyniadau a wnaethpwyd mewn perthynas â'u gofal iechyd gyda mentoriaid cymheiriaid wedi'u hyfforddi, ynghyd â'r dewisiadau sydd ar gael iddynt pe byddent yn dymuno herio unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd. Bellach, caiff y model ei ehangu er mwyn gwneud gwaith pellach gyda carcharorion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau gofal iechyd yn rheolaidd.

8.5 Mae nifer y carcharorion na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau gofal iechyd yn parhau i fod yn destun pryder. Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Chwefror 2019, roedd y gwasanaeth gofal iechyd wedi darparu 45,942 o apwyntiadau. O blith yr apwyntiadau hyn, roedd 7,525 (16.4%) yn apwyntiadau a wastraffwyd gan nad oedd y carcharorion wedi mynychu. Mae'r apwyntiadau hyn a wastraffir yn peri rhwystredigaeth gan ei bod yn hysbys bod carcharorion eraill yn aros am apwyntiadau tebyg.

8.6 Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn deall achos achlysuron pan na fydd unigolion yn mynychu apwyntiadau gofal iechyd, gan gydnabod y gallai fod nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys cystadleuaeth wrth flaenoriaethu apwyntiadau (megis ymweliadau cyfreithiol), y ffaith na ellir symud o gwmpas y carchar i fynychu apwyntiad (wedi colli slip symud, diffyg staff i ddatgloi) neu'r ffaith eu bod yn ofni cael newyddion drwg, fel rhai rhesymau posibl. Dylai'r gwaith a wneir gan y mentoriaid cymheiriaid iechyd a lles fynd ati ychydig i bennu rhai o'r rhesymau.

8.7 Mae'r mentoriaid cymheiriaid iechyd a lles wedi bod yn rhedeg llinell gymorth gofal iechyd er mis Tachwedd 2018. Mae'r linell gymorth ar gael i garcharorion ei ffonio os byddant yn cael unrhyw broblemau sy'n ymwneud â gofal iechyd. Croesawyd y fenter hyd yn hyn a chafwyd 1309 o alwadau rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Chwefror 2019.

8.8 Mae'r diffyg staff gofal iechyd ar y safle ar ôl 1900 o'r gloch wedi bod yn destun pryder i'r bwrdd ers y sefydlwyd y model. Ar ôl cael trafodaethau gyda'r uwch dîm arwain, mae BIPBC wedi cyflwyno gwasanaeth nyrsio dros nos a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2019.

8.9 Mae aelodau'r bwrdd sydd wedi mynychu adolygiadau o garcharorion yn yr uned gofal a gwahanu wedi mynegi nifer o bryderon am rôl y cynrychiolydd gofal iechyd sy'n mynychu'r adolygiad. Nodir eu bod yn aml yn anghyfarwydd ag anghenion gofal iechyd y carcharor gan nad nhw yw cydlynnydd gofal yr unigolyn. Er y cydnabyddir y bydd capasiti staff yn fater, er mwyn sicrhau cynnydd yr adolygiadau, byddai o fudd cael staff gofal iechyd sy'n gyfarwydd â'r

carcharor neu ei hanes meddygol yn mynychu.

## **9 ADDYSG A GWEITHGAREDDAU ERAILL**

---

9.1 Mae addysg yn cael ei darparu yng Ngholeg Berwyn o hyd gan Novus Cambria, partneriaeth rhwng Coleg Cambria a Novus Cambria. Mae'n ymddangos bod y bartneriaeth hon yn gweithio'n dda ac yn datblygu gydag amser. Mae'r model dysgu a sgiliau yn parhau i fod yn arloesol, a'i nod yw cynorthwyo adsefydlu trwy ddarparu canlyniadau cadarnhaol a mwy o siawns o sicrhau cyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

9.2 Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, roedd Coleg Berwyn wedi darparu 419 o leoedd dysgu craidd yn ystod y bore a 407 o leoedd yn ystod y prynhawn. Mae'r lleoedd hyn yn ymgysylltu â'r carcharor mewn lleoliad ffurfiol ar ffurf ystafell ddosbarth ac mewn lleoliad hyfforddiant sgiliau mewn arddull galwedigaethol.

9.3 Mae nifer presennol y staff wedi codi i 70. Mae nifer yn athrawon profiadol sy'n gweithio mewn amgylchedd carchar am y tro cyntaf. Barnwyd bod hyn wedi bod yn fantais ond hefyd, yn her o ganlyniad i'r amgylchedd gwahanol.

9.4 Mae'r broses o neilltuo carcharorion i'r lleoedd hyfforddiant galwedigaethol wedi bod yn her h.y. sicrhau bod y carcharor cywir ar y cwrs cywir. Mae nifer y carcharorion nad ydynt wedi mynychu wedi bod yn broblem. Cydnabuwyd hyn a chaiff y broses neilltuo ei hadolygu.

9.5 Rhagwelir y bydd y data llwyddiant ar gyfer 2018/19, ar gyfer y carcharorion hynny sy'n cael eu cadw ac sy'n sicrhau tystysgrif, yn 97%, sydd yr un fath ag yr oedd yn 2017/18. Rhagwelir y bydd y gyfradd gadw ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau yn aros yr un fath, sef 98%. Rhagolygon yw'r rhain gan nad yw'r ffigurau go iawn ar gael eto.

9.6 Yn ystod y flwyddyn, gwelsom ddiogelwch staff a charcharorion yn y coleg yn gwella. Mae hyn yn cynnwys trefniadau rheoli tynnach wrth ddod i mewn i'r coleg a gadael y coleg, a bu swyddogion mewn gwisg wrth y drws a chyflawnwyd gweithgarwch gorfodi trylwyr gan y mentoriaid wrth y ddesg derbynfa, gan gynnwys y gofyniad bod pob ymwelydd yn mewngofnodi ac yn allgofnodi. Mae cloi toiledau a drysau coridor mewnol yn atal pobl rhag defnyddio sylweddau anghyfreithlon hefyd. Yn gyffredinol, wrth i'r amser fynd yn ei flaen, mae hyder y staff wedi codi wrth iddynt sicrhau gwybodaeth a phrofiad o 'grefft carchar'.

9.7 Yn yr un modd â rhannau eraill o'r sefydliad, mae'r coleg ar daith ac mae cynnydd cyson yn cael ei sicrhau. Disgwylir arolygiad gan ESTYN yn gynnwys yn ystod blwyddyn nesaf y bwrdd.

## **10 GWAITH, HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL a CHYFLOGAETH**

---

10.1 Ceir problem wrth i garcharorion fethu mynychu'r gwaith a neilltuwyd iddynt. Mae hon wedi bod yn broblem barhaus yn y carchar er mis Gorffennaf 2018. Nodwyd bod sawl rheswm dros hyn, ond gall y sefyllfa beri rhwystredigaeth ymhlith carcharorion sy'n aros am leoliad gwaith.

10.2 Canran y carcharorion sy'n mynychu gweithgarwch pwrpasol yw 87%. Mae'r ganran hon yn cynnwys absenoldebau derbynol hy apwyntiadau gofal iechyd, ymyriadau seicoleg ac ymweliadau. 13% yw'r ffigwr methu mynychu ymhlith y carcharorion hynny y neilltuir gweithgarwch pwrpasol iddynt.

10.3 Mae'r gweithdai hyfforddiant galwedigaethol bellach wedi agor ar y cyd â Choleg Berwyn ac maent yn cynnig y cyfleoedd canlynol:

- Saerñaeth safle – 25 lle
- Saerñaeth mainc – 20 lle
- Gosod brics – 10 lle
- Plastro – 15 lle
- Cynladwyedd – 12 lle
- Glanhau Diwydiannol – 30 lle

10.4 Mae cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn y sefydliad ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:

- Ceginau (gan gynnwys Caffi y Ddalfa) – 50
- Rheoli Gwastraff – 12
- Cynnal a Chadw y Tir – 14
- DHL - 80
- Mentoriaid - 80
- Gwaith cymunedol – 302

10.5 Mae Berwyn yn parhau i roi pwys ar werth darpariaeth a arweinir gan gymheiriaid. Mae hyn yn cynnwys cael presenoldeb yn y dderbynfa pan fydd preswylwyr newydd yn cyrraedd. Yn ogystal, bydd carcharorion yn cyflawni rolau mentora yn y cymunedau er mwyn cynorthwyo preswylwyr i ddefnyddio technoleg ddigidol trwy Unilink. Yn ogystal, mae'r carchar wedi sefydlu menter gymdeithasol gyda chwmni o Ogledd Cymru, Dylan's. Mae'r bartneriaeth hon wedi arwain at gynhyrchu Pasteiod y Ddalfa, sydd wedi ennill gwobrau, ac mae'n parhau i arwain at gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau.

10.6 Fel esboniad, mae Dylan's yn gadwyn o fwytai yng Ngogledd Cymru ac mae ganddi gysylltiadau agos gyda Berwyn. Mae gwaith i gynhyrchu 'pasteiod dalfa' gan y dynion ym Merwyn yn ymdrech ar y cyd rhwng y gadwyn bwytai a thîm arlwygo y sefydliad. Hyd yn hyn, mae'r fenter wedi sicrhau dwy wobwr genedlaethol.

## 11 PARATOI AR GYFER ADSEFYDLU

---

11.1 Mae'r sefydliad yn parhau i ddatblygu ac integreiddio'r gwasanaethau cymorth a'r ymyriadau sydd ar gael i garcharorion yn y Berwyn. Mae'r rhain yn cynnwys perthnasoedd partneriaeth mewnol ac allanol. Trwy weithio fel hyn, bu modd sicrhau nifer o wasanaethau er mwyn bodloni anghenion y boblogaeth.

11.2 Mae nifer o'r partneriaid allanol yn mynychu cyfarfodydd yn CEM Berwyn yn rheolaidd ac mae gan rai staff sy'n gweithio yn y sefydliad megis DWP (Adran Gwaith a Phensiynau) a Byddin yr Iachawdwriaeth.

11.3 Mae PACT (Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai) yn y dderbynfa ymweliadau a'r ardal ymweliadau, yn gwneud gwaith rhagweithiol gyda theuluoedd ac ymwelwyr â'r sefydliad er mwyn cynnig cymorth.

11.4 Mae gan y carcharorion liniaduron yn eu hystafelloedd, y gallant droi at y rhaglenni lleihau aildroseddu arnynt.

11.5 Mae'n hanfodol bod y perthnasoedd gyda thîm y cwmni adsefydlu cymunedol (CRC) yn sicrhau y darparir gwasanaethau adsefydlu da yn CEM Berwyn

11.6 Mae CRC yn parhau i gyfarfod gyda phob carcharor yn ystod eu ffenestr adsefydlu. Mabwysiadwyd cyfnod o 16 wythnos yn y Berwyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ag y bo modd. Yn ystod y cyfnod adsefydlu, mae'r ffocws ar anghenion y carcharor. Mae hyn yn canolbwyntio ar faterion tai a chyflogaeth yn bennaf. Mae CRC yn sicrhau bod gan bob carcharor sy'n gadael CEM Berwyn fath addas o brawf adnabod presennol er mwyn bodloni anghenion cyflogaeth a budd-daliadau. Ymhellach, cynigir cymorth i bob carcharor er mwyn sicrhau bod ganddynt gyfrif banc addas i hwyluso eu proses o bontio o'r ddalfa i fyw bywyd yn y gymuned. Mae gan CRC gysylltiadau rhagorol gyda darparwyr tai ac mae'n sicrhau y cyflwynir ceisiadau perthnasol am dai cyn rhyddhau carcharorion, gan gynnwys gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys statws angen blaenoriaeth, er mwyn cryfhau'r broses ymgeisio.

11.7 Canran gyfartalog y carcharorion sy'n cael eu rhyddhau Heb Gartref Sefydlog yng Nghymru yw 9.88%. Nid yw'r ffigurau ar gyfer carcharorion sy'n cael eu rhyddhau yn Lloegr, y gwneir yr un paratodau ar eu cyfer i gyd, ar gael.

11.8 Ni amlygir bod manteisio ar y Credyd Cynhwysol yn broblem yn y Berwyn, oherwydd y gwneir apwyntiadau gyda Chanolfan Byd Gwaith cyn eu rhyddhau.

11.9 Seiliwyd y broses ymweliadau ar egwyddorion normalrwydd. Croesawir yr ymwelwyr a chânt eu cynorthwyo mewn adeilad allanol a chynigir cymorth iddynt, ac mae trefniadau cyfeirio effeithiol mewn grym er mwyn cael cymorth CAB, budd-daliadau, Shelter a banciau bwyd.

11.10 Y tu hwnt i'r ddarpariaeth adsefydlu a ddarparir i bob carcharor, ceir cyfle i'r rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth neu elfennau agored i niwed arbennig fynychu'r cyfarfod anghenion adsefydlu misol. Cadeirir y cyfarfod hwn gan bennaeth y tîm CRC ac fe'i cefnogir gan y swyddogaeth lleihau aildroseddu. Mae nifer dda o bartneriaid a chydweithwyr yn mynychu'r cyfarfodydd, megis darparwyr cymorth ac adfer CAIS, Cyfle Cymru, Remploi, darparwyr tai awdurdodau lleol, elusen cyn-filwyr SSAFA, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), hyfforddwyr dysgu o Novus Cambria a gofal iechyd. Y nod yw nodi anghenion sy'n codi cyn rhyddhau carcharorion a chynnig y cymorth gorau er mwyn esmwytho'r broses bontio i fyw yn y gymuned. Mae staff gofal iechyd yn cynnig sicrwydd am ddarpariaeth meddyginiaeth

presgripsiwn ar yr adeg pan gânt eu rhyddhau, gan gynnig cymorth er mwyn sicrhau bod preswylwyr wedi cofrestru gydag ymarferwyr cymunedol i sicrhau darpariaeth gofal iechyd ddi-dor. Ceir cymorth ychwanegol gan fentoriaid er mwyn sicrhau bod carcharorion yn cael eu cynorthwyo cyn cymryd rhan yn y cyfarfod ac ar ôl hynny.

11.11 Mae'r sefydliad wedi gweithio'n galed i feithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda'r gymuned leol. Cryfhawyd y cysylltiadau hyn gan yr ymrwymiad i barhau i gynnal y digwyddiad Nadolig blynyddol i'r henoed yn y gymuned, sy'n cynnwys darparu cinio Nadolig tri chwrs a gaiff ei baratoi gan y carcharorion, ac adloniant. Cynhelir digwyddiadau y Siambr Fasnach, er mwyn archwilio cyfleoedd Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro i'r carcharorion. Yn fwy diweddar, ffurfiwyd cysylltiadau gyda Shelter Wrecsam, sydd wedi cytuno diwallu anghenion dillad carcharorion ar yr adeg pan gânt eu rhyddhau (megis cotiau cynnes) a cheir trefniant cyfatebol gan staff sydd wedi ymrwymo i roi dillad i'r siop yn Wrecsam.

11.12 Mae sicrhau tŷ ar ôl rhyddhau yn parhau i fod yn her. Mae gwasanaethu adsefydlu yn parhau i gyflwyno ceisiadau tai perthnasol ar gyfer yr holl garcharorion ar yr adeg pan gânt eu rhyddhau, ac mae CRC wedi gweithio'n galed i ffurfio cysylltiadau cadarnhaol gyda darparwyr tai rhanbarthol a chenedlaethol.

11.13 Ar y diwrnod rhyddhau, gall carcharorion sydd ag anghenion cymhleth neu y maent yn agored i niwed penodol, fanteisio ar wasanaethau trwy'r giât PACT, y maent yn gallu, yn ôl yr angen, casglu carcharorion wrth iddynt gael eu rhyddhau a'u cludo i apwyntiadau gyda DWP neu'r Gwasanaeth Prawf. Cânt eu rhyddhau trwy'r dderbynfa, pan gaiff carcharorion eu cynorthwyo gyda gwybodaeth ynghylch cysylltiadau trafndiaeth lleol a chynigir y cyfle iddynt gael cyswllt gyda phartïon perthnasol dros y ffôn cyn iddynt gael eu rhyddhau.

## C Adran – Gwaith y Bwrdd

Mae aelodau'r bwrdd wedi monitro cyfanswm o naw Digwyddiad Difrifol yn ystod y flwyddyn adrodd hon, yr oedd pob un ohonynt wedi cychwyn pan oedd yr aelodau dan sylw yn y sefydliad yn cynnal eu hymweliadau rota rheolaidd.

YSTADEGAU'R BWRDD	
Nifer aelodau'r bwrdd a argymhellir <i>(Sefydliad newydd, wedi'i asesu'n 24 pan fydd yn llawn)</i>	24
Nifer aelodau'r bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd <i>(6 aelod newydd, 4 aelod o'r bwrdd craidd, 2 aelod deuol o'r bwrdd)</i>	12
Nifer aelodau'r bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd <i>(5 aelod newydd, 10 aelod o'r bwrdd craidd)</i>	15
Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r sefydliad	668
Cyfanswm nifer yr adolygiadau ymwahanu yr aethpwyd iddynt/a fonitroyd – 99% (h.y. dydd Llun/Mercher a dydd Gwener bob wythnos am 14.00 o'r gloch) Mae'r dull monitro hwn yn sicrhau hefyd bod unrhyw ddyn sy'n cael ei symud i CASU yn cael ei weld gan aelod o'r bwrdd cyn pen y terfyn amser o 72 awr, sy'n ofyniad cyfreithiol.	155



## Adran – Ceisiadau i'r Bwrdd

<b>Cod</b>	<b>Pwnc</b>	<b>Blwyddyn adrodd gyfredol</b>	<b>Blwyddyn adrodd flaenorol</b>
A	Llety yn cynnwys golchi dillad gwelyau, dillad, ymolchi	26	10
B	Disgyblaeth yn cynnwys dyfarniadau, Cymhellion a Breiniau a Enillir, cosbau	40	12
C	Cydraddoldeb	20	5
D	Gweithgaredd Pwrpasol yn cynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, llyfrgell, trefn, amser allan o'r gell	19	13
E 1	Llythyrau, ymweliadau, galwadau ffôn, cyfyngiadau gwarchod y cyhoedd	43	10
E 2	Cyllid yn cynnwys tâl, arian preifat, arian i'w wario	11	3
F	Bwyd a Cheginau	7	11
G	Iechyd yn cynnwys gofal corfforol, meddyliol a chymdeithasol	43	42
H 1	Eiddo yn y sefydliad	103	36
H 2	Eiddo yn ystod trosglwyddo neu mewn sefydliad neu leoliad arall	48	52
H 3	Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au)	8	14
I	Rheoli dedfrydau yn cynnwys Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref, Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, gategoreiddio	42	20
J	Pryderon staff/carcharorion yn cynnwys bwlio mae *35/62 yn ymwneud ag un ymgeisydd lluosog	92	62*
K	Trosglwyddiadau	20	8

L	Amrywiol	32	5
	<b>Cyfanswm nifer y Ceisiadau</b>	554	303